Estyn

Rhagoriaeth i bawb – Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate
for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gynradd Sirol y Dolau
# Heol Pen-y-bont ar Ogwr
# Llanharan
# Pont-y-clun
# CF72 9RP

**Dyddiad yr arolygiad: Chwefror 2012**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Iechyd ar Waith – Cyrraedd y Nod – The Corporate Standard – Health at Work

Safon Amgylcheddol y Ddraig Werdd – Green Dragon Environmental Standard

Buddsoddwyr Mewn Pobl | Aur

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW

neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg)**

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2012: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

## Cyd-destun

Ysgol ddwyieithog yw Ysgol Gynradd y Dolau ac mae wedi'i lleoli ar gyrion pentref Llanharan, yn Rhondda Cynon Taf.  Mae 392 o ddisgyblion ar y gofrestr ar hyn o bryd rhwng tair ac 11 oed.  O'r disgyblion hyn, mae 59 yn mynychu'r dosbarth meithrin.

Daw mwyafrif y disgyblion o gartrefi lle mae'r Saesneg yn brif iaith.  Mae'r ysgol yn darparu addysg trwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg.  Er bod tua 50% o ddisgyblion yr ysgol yn mynychu'r ffrwd Gymraeg, mae'r rhan fwyaf ohonynt o gartrefi di-Gymraeg.  Daw tua 1% o ddisgyblion yr ysgol o gefndir ethnig lleiafrifol.

Mae disgyblion yn cynrychioli'r ystod gallu lawn pan fyddant yn dechrau yn yr ysgol. Mae gan un deg saith y cant o ddisgyblion hawl i gael prydau ysgol am ddim, sy'n is na'r ffigur cenedlaethol, sef tua 25%.  Mae tua 19% o blant ar gofrestr anghenion dysgu ychwanegol yr ysgol, ac nid oes gan unrhyw ddisgyblion ddatganiad o anghenion addysgol.

Roedd y pennaeth presennol yn ei swydd y tro diwethaf y cafodd yr ysgol ei harolygu yn Chwefror 2006.

Mae'r gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Gynradd y Dolau yn 2011-2012 yn golygu mai'r gyllideb yw £2,851 fesul disgybl.  Yr uchafswm fesul disgybl yn yr ysgolion cynradd yn Rhondda Cynon Taf yw £6,499 a'r isafswm yw £2,788.  Mae Ysgol Gynradd y Dolau yn safle 96 o'r 114 o ysgolion cynradd yn Rhondda Cynon o ran ei chyllideb ysgol fesul disgybl.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Da** |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol yr ysgol yn dda oherwydd:

- bod bron pob un o'r disgyblion yn gwneud cynnydd da yn eu dysgu yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol;
- bod ymddygiad a hunanddisgyblaeth disgyblion mewn gwersi ac amser egwyl yn eithriadol o dda;
- bod staff yn darparu ystod eang o brofiadau dysgu ysgogol sy'n ennyn diddordebau'r disgyblion;
- bod athrawon yn cynllunio'r cwricwlwm yn drylwyr; a
- bod bron pob un o'r disgyblion yn hapus ac yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol.

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r ysgol yn dda oherwydd:

- bod y pennaeth a'r uwch dîm rheoli yn darparu arweinyddiaeth gref;
- bod arweinwyr a rheolwyr yn nodi cryfderau a meysydd i'w datblygu yn effeithiol;
- bod gan lywodraethwyr wybodaeth glir am berfformiad yr ysgol ac yn ei dwyn i gyfrif yn drylwyr am y safonau a'r ansawdd y mae'n eu cyflawni; a
- bod athrawon yn cymryd rhan mewn nifer o gymunedau dysgu proffesiynol sy'n cael effaith gadarnhaol ar safonau.

## Argymhellion

Er mwyn gwella, mae angen i’r ysgol:

A1 godi safonau darllen mewn Cymraeg mamiaith yn y Cyfnod Sylfaen; a

A2 sicrhau bod yr arfer orau mewn addysgu yn cael ei hymestyn ar draws yr ysgol.

**Beth sy’n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy’n dangos sut y bydd yn mynd i’r afael â’r argymhellion. Bydd Estyn yn gwahodd yr ysgol i baratoi astudiaeth achos yn disgrifio’r arfer ragorol a nodwyd yn ystod yr arolygiad.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Mae bron pob un o'r disgyblion yn gwneud cynnydd da yn eu dysgu yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol.

Yn y ffrwd Saesneg, mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn darllen yn Saesneg i lefel sy'n briodol i'w hoedran a'u gallu. Gwnânt ddefnydd llawn o'u medrau ysgrifennu estynedig ar draws y cwricwlwm. Mae medrau llafaredd disgyblion yn datblygu'n dda, ac mae gan y mwyafrif ohonynt eirfa eang a'r gallu i drafod amrywiaeth o destunau'n effeithiol ar lefel briodol. Mewn Cymraeg ail iaith, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn darllen ar lefel sy'n briodol i'w hoedran a'u gallu. Gall llawer o ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 2 gynnal sgyrsiau syml ac ateb cwestiynau syml yn Gymraeg mewn pynciau eraill. Maent yn ysgrifennu gyda hyder cynyddol yn Gymraeg wrth iddynt symud trwy'r ysgol.

Mae disgyblion yng nghyfnod allweddol 2 yn yr adran Gymraeg yn gwneud cynnydd da yn eu medrau darllen yn y ddwy iaith a gallant ddefnyddio'r medrau hynny'n briodol mewn pynciau eraill. Fodd bynnag, nid yw medrau darllen llawer o ddisgyblion yn y Cyfnod Sylfaen yn Gymraeg wedi'u datblygu cystal. Mae medrau llafaredd disgyblion yn datblygu'n dda yn y ddwy iaith, a gall y rhan fwyaf o ddisgyblion drafod eu gwaith yn aeddfed gyda disgyblion eraill ac oedolion. Mae llawer o ddisgyblion yn y Cyfnod Sylfaen yn ysgrifennu'n hyderus, tra bod y rhan fwyaf o'r disgyblion hŷn yng nghyfnod allweddol 2 yn gallu ysgrifennu'n helaeth ac yn aeddfed mewn ystod o genres yn y ddwy iaith.

Mae data perfformiad dros y pum mlynedd diwethaf yn adlewyrchu ychydig o duedd ar i lawr ym mherfformiad disgyblion saith oed. Fodd bynnag, mae canran y disgyblion sy'n cyflawni'r lefel 2 ddisgwyliedig neu'n uwch, ym mhynciau craidd Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth, wedi bod yn uwch na'r cyfartaledd ar gyfer y teulu o ysgolion tebyg ar y cyfan, ond yn amrywiol o gymharu â chyfartaleddau Cymru. Mae canran y disgyblion sy'n cyflawni'r lefel 2 ddisgwyliedig neu'n uwch mewn Cymraeg mamiaith wedi bod yn uwch na chanran y teulu o ysgolion a Chymru dros ddwy o'r pedair blynedd diwethaf. O gymharu ag ysgolion yn yr un band prydau ysgol am ddim, mae'r ysgol wedi amrywio rhwng y chwarter cyntaf a'r pedwerydd chwarter.

Mae'r data ar gyfer disgyblion 11 oed yn dangos tuedd gyson mewn perfformiad yn gyffredinol dros bum mlynedd. Mae canran y disgyblion sy'n cyflawni'r lefel 4 ddisgwyliedig neu'n uwch ym mhynciau craidd Saesneg, Cymraeg mamiaith, mathemateg a gwyddoniaeth naill ai wedi bod yn debyg i berfformiad ysgolion tebyg neu'n uwch ac yn uwch na ffigurau Cymru ar y cyfan. O gymharu ag ysgolion yn yr un band prydau ysgol am ddim, mae'r ysgol wedi amrywio rhwng y chwarter cyntaf a'r pedwerydd chwarter.

Yng nghyfnod allweddol 1 a chyfnod allweddol 2, mae canran y disgyblion sy'n cyflawni lefelau yn uwch na'r disgwyl wedi bod yn amrywiol o gymharu ag ysgolion tebyg a Chymru dros y pum mlynedd diwethaf.

Nid oes unrhyw batrwm arwyddocaol o wahaniaeth ym mherfformiad bechgyn o gymharu â pherfformiad merched na rhwng disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim o gymharu â'r rhai nad oes ganddynt hawl.

Mae disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd rhagorol. Mae disgyblion sy'n cael eu hadnabod fel rhai mwy abl a dawnus yn gwneud cynnydd da.

**Lles: Da**

Mae ymddygiad a hunanddisgyblaeth disgyblion mewn gwersi ac amser egwyl yn eithriadol o dda.

Mae bron pob disgybl yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol. Mae bron pob disgybl yn deall pwysigrwydd cadw'n iach ac maent yn cymryd rhan yn y cyfleoedd rheolaidd i wneud ymarfer corff a ddarperir gan yr ysgol. Mae llawer o ddisgyblion yn cymryd rhan mewn clybiau a thimau ysgol sydd hefyd yn cyfrannu at eu hyder a'u lles.

Mae disgyblion ac athrawon yn cynllunio agweddau ar themâu dosbarth a dysgu gyda'i gilydd. Mae'r dull hwn yn hyrwyddo mwynhad disgyblion yn eu gwaith ac yn datblygu agwedd gadarnhaol at ddysgu. Mae bron pob un o'r disgyblion yn dangos lefel dda o gymhelliant yn y dosbarth ac yn ystod amrywiaeth o weithgareddau allgyrsiol.

Mae presenoldeb disgyblion ychydig uwchlaw 93% sy'n cymharu'n ffafriol â'r lefelau presenoldeb ar gyfer ysgolion tebyg a'r cyfartaledd cenedlaethol.

Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion fedrau cymdeithasol a medrau bywyd da. Mae ganddynt gyfrifoldebau penodol yn eu dosbarthiadau ac o gwmpas yr ysgol y maent yn eu gwneud ag aeddfedrwydd. Maent yn derbyn cyfrifoldeb am eu gwaith a'u gweithredoedd ac yn dangos parch a gofal tuag at eu cyfoedion a staff. Maent yn cymryd rhan mewn ystod eang o weithgareddau cymunedol, ac yn cefnogi elusennau lleol a chenedlaethol yn dda.

Mae'r cyngor ysgol a'r eco gyngor yn effeithiol ac wedi cael effaith gadarnhaol ar nifer o welliannau i amgylchedd yr ysgol. Mae tystiolaeth ddogfennol ac arddangosiadau ar draws yr ysgol yn dangos bod y ddau grŵp yn cyfrannu'n dda at fywyd yr ysgol, a gweithgareddau a phenderfyniadau.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Rhagorol**

Mae'r ysgol yn darparu ystod eang o brofiadau dysgu ysgogol iawn sy'n ennyn diddordeb disgyblion ar draws yr ysgol.

Mae athrawon yn cynllunio'r cwricwlwm yn drylwyr. Mae cynllunio tymor hir a thymor canolig yn y Cyfnod Sylfaen a chyfnod allweddol 2 yn nodwedd ragorol yn y ffordd y

mae'n sicrhau parhad a dilyniant yn natblygiad medrau disgyblion mewn cyfathrebu, llythrennedd, rhifedd a TGCh o un wers i'r llall ac o un flwyddyn i'r llall.  Mae hon yn nodwedd nodedig sy'n werth ei hefelychu.

Rhoddir cyfleoedd priodol hefyd i ddisgyblion gyfrannu eu syniadau eu hunain yn y broses gynllunio sy'n hyrwyddo perchnogaeth o'u dysgu.  Mae'r ysgol yn cynnal 'diwrnodau medrau' dynodedig yn rheolaidd, ac mae'r rhain yn gwella'r ddarpariaeth hon ac yn cael effaith gadarnhaol ar ddatblygiad medrau penodol.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu'r iaith Gymraeg yn effeithiol.  Mae athrawon yn hyrwyddo hanes, daearyddiaeth, diwylliant a cherddoriaeth Cymru yn dda iawn.  Mae athrawon yn sicrhau bod disgyblion o'r ffrwd Gymraeg a'r ffrwd Saesneg yn gweithio a chwarae'n dda gyda'i gilydd ac yn defnyddio'r Gymraeg yn briodol fel cyfrwng cyfathrebu mewn sefyllfaoedd ffurfiol ac achlysurol.

Mae'r ysgol yn cynnig ystod eang o weithgareddau allgyrsiol sy'n cynnwys chwaraeon a chyfleoedd creadigol.  Mae'r cyfleoedd hyn yn galluogi disgyblion i wella eu defnydd o'r Gymraeg y tu allan i'r ystafell ddosbarth.

Mae addysg ar gyfer datblygiad cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang yn nodwedd ragorol yn yr ysgol.  Rhoddir cyfleoedd rhagorol i ddisgyblion ehangu eu hymwybyddiaeth ac ymestyn eu gwybodaeth o ardaloedd eraill o'r byd, er enghraifft Sri Lanca ac Wganda.  Cydnabuwyd gwaith yn y maes hwn â Gwobr Ysgolion Rhyngwladol a barnwyd ei fod yn arfer ragorol gan Lywodraeth Cymru.

**Addysgu:  Da**

Mae pob un o'r athrawon yn defnyddio ystod eang o ddulliau a strategaethau addysgu i alluogi disgyblion i wneud cynnydd da.  Mae gan y rhan fwyaf o athrawon wybodaeth bynciol drylwyr ac ymwybyddiaeth gadarn o bwysigrwydd datblygu medrau disgyblion.  Mae athrawon yn fodelau iaith da ar y cyfan.  Mae athrawon a chynorthwywyr ystafell ddosbarth yn adnabod y disgyblion yn dda ac mae hyn yn cyfrannu'n sylweddol at ansawdd y dysgu.

Yn y nifer dda o wersi y barnwyd eu bod yn dda neu'n rhagorol, mae gan athrawon ddisgwyliadau uchel, ac maent yn defnyddio amser yn effeithiol iawn i ennyn diddordeb disgyblion a'u cymell.  Yn y nifer fach o wersi lle mae'r addysgu'n llai effeithiol, nid yw athrawon yn herio disgyblion yn ddigonol.

Mae athrawon yn asesu cynnydd disgyblion mewn dysgu yn rheolaidd a thrylwyr, ac maent yn defnyddio'r wybodaeth hon yn effeithiol i gynllunio'r camau nesaf yn nysgu'r disgyblion.  Mae athrawon yn defnyddio asesiadau yn effeithiol i dargedu tanberfformio.

Ymgorfforir strategaethau asesu ar gyfer dysgu ar draws yr ysgol.  Mae athrawon yn rhannu amcanion dysgu, yn annog asesu cyfoedion ac yn defnyddio meini prawf llwyddiant yn rheolaidd gyda disgyblion.  Mae'r broses o osod targedau ar gyfer disgyblion unigol wedi'i sefydlu ar draws yr ysgol ac mae'n amlwg ym marcio'r athrawon.  Caiff y rhain effaith adeiladol ar ansawdd gwaith disgyblion.

Mae adroddiadau i rieni yn llawn gwybodaeth, yn hawdd eu deall ac yn bodloni gofynion statudol.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r ysgol yn gymuned drefnus lle caiff pawb ei werthfawrogi. Mae oedolion a disgyblion yn dangos parch at ei gilydd. Mae gan yr ysgol raglenni effeithiol i gefnogi lles emosiynol a chorfforol disgyblion. Mae amser cylch, gwersi addysg grefyddol a gweithredoedd dyddiol o addoli yn cyfrannu'n dda tuag at ddatblygu ymwybyddiaeth ysbrydol, foesol, gymdeithasol a diwylliannol disgyblion. Yn y gweithredoedd dyddiol hyn o addoli, caiff disgyblion gyfleoedd priodol i fyfyrio ar y neges a gyflwynir.

Rhoddir arweiniad da i ddisgyblion, sy'n hyrwyddo eu cynnydd addysgol a'u lles yn effeithiol. Mae'r ysgol yn pwysleisio pwysigrwydd iechyd corfforol yn briodol trwy wahanol feysydd o'r cwricwlwm. Caiff hyn ei wella gan gyfleusterau chwarae da yn yr awyr agored a'r cyfle cyfartal a roddir i ddisgyblion gymryd rhan yn yr ystod eang o weithgareddau allgyrsiol.

Mae'r ysgol yn cysylltu'n effeithiol â llawer o asiantaethau arbenigol, sy'n cynnwys yr heddlu, yr awdurdod lleol, y gwasanaethau iechyd, a'r gwasanaethau cymdeithasol.

Mae gan yr ysgol weithdrefnau a pholisi priodol ar gyfer diogelu.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol, yn cynnwys y disgyblion mwy abl a dawnus, yn nodwedd ragorol. Defnyddir arbenigedd yr athro dynodedig ar gyfer anghenion dysgu ychwanegol yn effeithiol iawn. Mae'r cwricwlwm yn bodloni gofynion grwpiau penodol ac unigolion ac yn cynnig rhaglen bersonol effeithiol ar gyfer y rhai ag anghenion penodol. Mae hyn yn cynnwys cynlluniau unigol addas ar gyfer disgyblion ag anghenion ychwanegol ac adolygiadau rheolaidd o'u gwaith sy'n cynnwys disgyblion a'u rhieni. O ganlyniad, mae disgyblion a'u rhieni yn ymwybodol iawn o'r cynnydd a wnânt a'r hyn sy'n ddisgwyliedig ohonynt er mwyn gwella ymhellach.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae'r ysgol yn gymuned gynhwysol, lle caiff pob disgybl gyfle i wneud defnydd cyfartal i bob maes dysgu. Mae athrawon yn pwysleisio pwysigrwydd cydnabod, parchu a dathlu amrywiaeth trwy raglen addysg bersonol a chymdeithasol addas, yn cynnwys cysylltiadau gweithredol gyda lleoliadau mewn gwledydd Ewropeaidd amrywiol a thu hwnt mewn gwledydd fel Sri Lanca ac Wganda.

Caiff yr adeilad a'r cyfleusterau allanol eu cynnal yn dda ac maent yn nodweddion cryf iawn o amgylchedd yr ysgol. Mae'r ysgol yn defnyddio'r cyfleusterau hyn yn effeithiol er mwyn cyfoethogi profiadau dysgu disgyblion. Gwneir defnydd creadigol o'r tir, yr ardal goedwig a'r caeau o amgylch yr ysgol ar gyfer gwersi yn yr awyr agored. Mae'r estyniad newydd yn cynnig amgylchedd dysgu o ansawdd uchel. Mae wedi'i gynllunio i fodloni anghenion y Cyfnod Sylfaen yn llawn ac yn darparu mynediad llawn i ddisgyblion ag anawsterau symudedd.

Mae'r ysgol yn gwneud defnydd da iawn o unrhyw le dros ben ar gyfer addysgu cerddoriaeth, addysg gorfforol, celf a gwyddoniaeth. Mae arddangosiadau ar draws yr ysgol yn rhagorol ac yn creu amgylchedd pleserus ac ysgogol sy'n gwella'r dysgu.

| Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth? | Da |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Da**

O dan arweinyddiaeth y pennaeth, mae'r uwch dîm rheoli yn hyrwyddo cenhadaeth yr ysgol, 'Mae ein ffordd i lwyddiant yn cael ei hadeiladu'n barhaus' yn llwyddiannus. Mae eu hymdrech a'u hymroddiad cadarn i wella safonau yn barhaus a rhoi cyfleoedd cyffrous i ddisgyblion ddysgu yn greiddiol i fywyd a gwaith yr ysgol. Mae uwch arweinwyr wedi creu strwythurau rheoli effeithiol i gefnogi a grymuso'r holl staff, sy'n eu galluogi i gyflawni eu rolau yn effeithiol. Mae gan bob aelod o staff rolau wedi'u diffinio'n glir. Maent yn cydweithio'n dda mewn ystod o dimau effeithiol sy'n rhoi cyfeiriad ac arweinyddiaeth glir i'w meysydd cyfrifoldeb. Mae hon yn nodwedd gref ar arweinyddiaeth yr ysgol.

Mae'r corff llywodraethol yn cyflawni ei ddyletswyddau yn effeithiol. Mae gan lywodraethwyr wybodaeth glir am berfformiad yr ysgol ac maent yn ei dwyn i gyfrif yn drylwyr am y safonau a'r ansawdd y mae'n eu cyflawni. Mae llywodraethwyr yn cyflawni eu dyletswyddau cyfreithiol a rheoleiddio'n dda, ac yn cyfrannu'n effeithiol at wella'r ysgol.

Mae trefniadau rheoli perfformiad strwythuredig yn cysylltu'n briodol â blaenoriaethau'r ysgol a llawer o flaenoriaethau lleol a chenedlaethol hefyd ac yn nodi cyfleoedd datblygiad proffesiynol addas ar gyfer pob un o'r staff. Mae'r rhain yn cyfrannu'n dda at welliannau mewn safonau. Yng ngoleuni'r ystod eang o weithgareddau a gwasanaethau y mae'n eu darparu, mae'r ysgol yn cynllunio ar gyfer blaenoriaethau cenedlaethol a lleol, a'u bodloni, yn effeithiol.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae arweinwyr a rheolwyr yn nodi cryfderau a meysydd i'w datblygu mewn ffordd systematig ac effeithiol. Mae arweinwyr pwnc yn cynnal ystod eang o weithgareddau monitro ffocysedig yn rheolaidd, sy'n cynnwys arsylwi gwersi a chraffu ar waith cynllunio athrawon a disgyblion. Mae ansawdd yr adroddiadau arfarnu sy'n deillio o'r gwaith hwn yn dda. Maent yn amlygu blaenoriaethau i'w datblygu ac yn bwydo'n glir i'r cynllun datblygu ysgol.

Mae cynlluniau gwella yn cynnwys ystod eang o gamau ac yn nodi aelodau o staff sydd â chyfrifoldeb am eu cyflwyno. Maent hefyd yn cynnwys meini prawf llwyddiant clir sydd wedi'u seilio ar ddeilliannau disgyblion, a graddfeydd amser diffiniedig ar gyfer arfarnu a chwblhau. Mae arweinwyr yn adolygu'r cynlluniau hyn yn rheolaidd ac yn eu haddasu pan fydd angen gyda ffocws ar godi safonau.

Mae'r ysgol yn gymuned ddysgu effeithiol sydd â diwylliant cadarnhaol o gydweithio a gwaith tîm effeithiol. Mae nifer o gymunedau dysgu proffesiynol y tu mewn a'r tu allan i'r ysgol sy'n cael effaith gadarnhaol ar safonau. Mae athrawon yn rhannu arfer dda gyda phobl eraill ar draws yr ysgol yn effeithiol. Mae menter hynod lwyddiannus wedi golygu bod pob un o'r athrawon yn cynnal arsylwadau ar y cyd er mwyn nodi strategaethau addysgu effeithiol sydd wedi cael eu mabwysiadu mewn llawer o ddosbarthiadau.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae gan yr ysgol ystod eang o bartneriaethau cryf. Mae'r bartneriaeth gyda rhieni yn nodwedd ragorol. Mae rhieni'n gefnogol o'r holl weithgareddau y mae'r ysgol yn eu darparu ac yn gwerthfawrogi'r ymdrechion gan bob aelod o staff. Mae cymdeithas rhieni ac athrawon yr ysgol yn weithgar iawn ac wedi cyfrannu'n sylweddol at brynu adnoddau. Mae'r ysgol yn trefnu gweithdai amrywiol ar gyfer rhieni yn rheolaidd er mwyn codi eu hymwybyddiaeth, a'u galluogi i gefnogi eu plant.

Mae disgyblion yn cymryd rhan yn rheolaidd mewn cyngherddau a gweithgarwch mewn eglwysi a chapeli lleol, ac yn aml yn diddanu aelodau hŷn o'r gymuned mewn cartrefi gofal cyfagos.

Mae cysylltiadau â'r Cylch Meithrin lleol a darparwyr meithrin eraill wedi'u sefydlu'n dda ac yn helpu disgyblion newydd i ymgynefino'n dda pan fyddant yn dechrau yn yr ysgol.

Mae cynlluniau pontio manwl gyda'r ysgolion uwchradd lleol yn cynnwys cysylltiadau cwricwlaidd a bugeiliol. Mae'r rhain yn effeithiol wrth helpu disgyblion hŷn i baratoi ar gyfer y cyfnod nesaf yn eu dysgu. Mae athrawon o'r ysgol a'r ysgolion cynradd cyfagos yn gweithio'n effeithiol gyda chydweithwyr mewn ysgolion uwchradd i sicrhau cysondeb mewn asesu. Mae athrawon hefyd yn gweithio gyda'i gilydd ar draws y sectorau er mwyn sicrhau parhad mewn llawer o feysydd pwnc.

Mae prosiect Myfyrwyr yn Cymell Dysgu Arloesol trwy Fenter (SMILE) yn bartneriaeth nodedig gyda'r coleg addysg bellach lleol sydd wedi galluogi'r ysgol i ddatblygu medrau disgyblion a chodi eu hymwybyddiaeth am yr hyn y mae'r sefydliad yn ei gynnig o ran cyrsiau a phrofiadau.

Mae gan yr ysgol bartneriaethau effeithiol gyda dau sefydliad hyfforddiant cychwynnol i athrawon hefyd, ac yn aml yn rhoi lle i fyfyrwyr ar leoliad.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae'r ysgol yn rheoli ei chyllid yn dda. Mae'n blaenoriaethu ac yn monitro gwariant yn ofalus ac yn darparu adnoddau ar gyfer blaenoriaethau'r ysgol yn briodol. Mae'r ysgol yn defnyddio staff addysgu a staff cymorth yn effeithiol er mwyn bodloni anghenion pob disgybl. Caiff amser cynllunio, paratoi ac asesu ei reoli'n effeithiol. Mae digonedd o adnoddau dysgu o ansawdd da a safon ragorol o adeiladau, y mae arweinwyr yn eu rheoli'n dda.

Yng ngoleuni'r defnydd priodol a wna'r ysgol o'i chyllid a'r cynnydd da a wna bron pob disgybl, mae'r ysgol yn darparu gwerth da am arian.

## Atodiad 1

**Sylwadau ar ddata perfformiad**

Mae data perfformiad dros y pum mlynedd diwethaf yn adlewyrchu ychydig o duedd ar i lawr ym mherfformiad disgyblion saith oed. Mae canran y disgyblion sy’n cyflawni’r lefel 2 ddisgwyliedig neu’n uwch, ym mhynciau craidd Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth, wedi bod yn uwch ar y cyfan o gymharu â’r teulu o ysgolion (grŵp o ysgolion sydd â nodweddion tebyg) ac yn amrywiol o gymharu â chyfartaledd Cymru. Mae canran y disgyblion sy’n cyflawni’r lefel 2 ddisgwyliedig neu’n uwch mewn Cymraeg mamiaith wedi bod yn uwch o gymharu â’r teulu o ysgolion a Chymru dros ddwy o’r pedair blynedd diwethaf. Dros y ddwy flynedd ddiwethaf, mae wedi bod yn is. O gymharu ag ysgolion yn yr un band prydau ysgol am ddim, mae’r ysgol wedi amrywio rhwng y chwarter cyntaf a’r pedwerydd chwarter. Yn 2011, rhoddwyd yr ysgol yn y trydydd neu’r pedwerydd chwarter ar gyfer pob un o’r pynciau craidd. Yn 2011, roedd canran y disgyblion sy’n cyflawni lefel 2 neu’n uwch mewn Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth yn uwch na’r canran ar gyfer y teulu o ysgolion ond yn is na chyfartaledd Cymru. Mewn Cymraeg mamiaith, roedd hyn yn is na chanran y teulu a Chymru. Mae data diwedd cyfnod allweddol hefyd yn awgrymu bod canran y disgyblion sy’n cyflawni’r lefel 3 uwch mewn Saesneg wedi bod yn amrywiol o gymharu â’r teulu o ysgolion a Chymru dros y pedair blynedd diwethaf. Mewn Cymraeg a gwyddoniaeth, mae’r canran yn gyffredinol wedi bod yn uwch na’r teulu o ysgolion ond yn is na Chymru. Mewn mathemateg, mae wedi bod yn uwch na’r canran ar gyfer y teulu o ysgolion a Chymru.

Mae’r data ar gyfer disgyblion 11 oed ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 yn dangos tuedd gyson ar y cyfan mewn perfformiad dros bum mlynedd, gyda chanran y disgyblion sy’n cyflawni lefel 4 neu’n uwch ym mhynciau craidd Saesneg, Cymraeg mamiaith, mathemateg a gwyddoniaeth yn gyson naill ai’n debyg i’r canran ar gyfer ysgolion tebyg ac yn gyffredinol uwch na ffigur Cymru. O gymharu ag ysgolion yn yr un band prydau ysgol am ddim, mae’r ysgol wedi amrywio rhwng y chwarter cyntaf a’r trydydd chwarter mewn Cymraeg, mae wedi bod yn y trydydd chwarter yn gyson ar gyfer Saesneg, mae wedi bod rhwng yr ail a’r trydydd chwarter ar gyfer gwyddoniaeth a rhwng yr ail a’r pedwerydd chwarter ar gyfer mathemateg. Roedd yr ysgol yn y trydydd chwarter ar gyfer Saesneg a’r ail chwarter ar gyfer y tri phwnc craidd arall yn 2011, ac fe berfformiodd yn well na’r teulu o ysgolion a Chymru. Mae data ar ddiwedd cyfnod allweddol hefyd yn awgrymu bod canran y disgyblion sy’n cyflawni’r lefel 5 uwch wedi bod yn amrywiol o gymharu ag ysgolion tebyg a Chymru dros bum mlynedd.

Nid oes patrwm arwyddocaol o wahaniaeth ym mherfformiad bechgyn o gymharu â pherfformiad merched na rhwng disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim o gymharu â’r rhai nad oes ganddynt hawl.

## Atodiad 2

**Adroddiad boddhad rhanddeiliaid**

**Holiaduron i ddysgwyr**

Cafodd Estyn 104 o ymatebion i'r holiadur i ddysgwyr. Mae bron pob un o'r disgyblion yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol, bod yr ysgol yn eu haddysgu i gadw'n iach, bod yr ysgol yn rhoi llawer o gyfleoedd iddynt wneud ymarfer corff yn rheolaidd a bod yr athrawon ac oedolion eraill yn yr ysgol yn eu helpu i ddysgu a gwneud cynnydd. Mae bron pob un ohonynt yn gwybod beth i'w wneud a phwy i ofyn os ydynt yn gweld eu gwaith yn anodd. Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn teimlo bod yr ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio a'u bod yn gwybod gyda phwy i siarad os ydynt yn poeni neu'n gofidio. Mae'r rhan fwyaf ohonynt hefyd yn teimlo eu bod yn gwneud yn dda yn yr ysgol, bod gwaith cartref yn eu helpu i ddeall a gwella eu gwaith yn yr ysgol, bod ganddynt ddigon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron i wneud eu gwaith a bod bron pob un o'r plant yn ymddwyn yn dda amser chwarae ac amser cinio. Mae llawer o ddisgyblion yn teimlo bod plant eraill yn ymddwyn yn dda a'u bod yn gallu bwrw ymlaen â'u gwaith.

**Holiaduron i rieni**

Mae'r 66 o ymatebion gan rieni yn gadarnhaol iawn. Mae pob un o'r rhieni naill ai'n cytuno neu'n cytuno'n gryf:

- eu bod yn fodlon â'r ysgol ar y cyfan;
- bod eu plentyn yn hoffi'r ysgol;
- y cafodd eu plentyn gymorth i ymgynefino'n dda pan ddechreuodd yr ysgol;
- bod eu plentyn yn gwneud cynnydd da;
- bod yr addysgu'n dda;
- bod staff yn disgwyl i'w plentyn weithio'n galed a gwneud eu gorau;
- bod y gwaith cartref a roddir yn adeiladu'n dda ar yr hyn y mae eu plentyn yn ei ddysgu yn yr ysgol;
- bod staff yn trin pob plentyn yn deg ac yn dangos parch atynt;
- bod eu plentyn yn ddiogel yn yr ysgol;
- bod eu plentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol;
- eu bod yn teimlo'n gyfforddus ynglŷn â mynd at yr ysgol gyda chwestiynau, awgrymiadau neu broblem;
- bod eu plentyn yn cael ei baratoi'n/pharatoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r cyfnod nesaf yn ei (h)addysg;
- bod ystod dda o weithgareddau, yn cynnwys gwibdeithiau neu ymweliadau; a
- bod yr ysgol yn cael ei rhedeg yn dda.

Mae bron pob un ohonynt yn cytuno neu'n cytuno'n gryf:

- bod disgyblion yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol;
- bod yr ysgol yn helpu eu plentyn i ddod yn fwy aeddfed a chymryd cyfrifoldeb;

- eu bod yn cael eu hysbysu'n dda am gynnydd eu plentyn;
- bod eu plentyn yn cael ei (h)annog i fod yn iach a gwneud ymarfer corff yn rheolaidd; a'u
- bod nhw'n deall gweithdrefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion.

## Atodiad 3

**Y tîm arolygu**

| | |
|---|---|
| Huw Watkins | Arolygydd Cofnodol |
| David Davies | Arolygydd Tîm |
| Prydwen Elfed-Owens | Arolygydd Tîm |
| Gwynoro Jones | Arolygydd Lleyg |
| Ceri Emanuel | Arolygydd Cymheiriaid |
| Gareth Evans (Pennaeth) | Enwebai'r Ysgol |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

O dan Reoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003, rhaid i'r ysgol ddarparu copïau o'r adroddiad i holl rieni'r ysgol. Lle mae disgybl yn cael ei leoli yno gan awdurdod lleol, dylai'r ysgol anfon copi o'r adroddiad at bob awdurdod perthnasol.

**Grwpiau blwyddyn a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac AALlau.

Mae'r term 'Derbyn' (CSD) yn cyfeirio at grŵp blwyddyn o ddisgyblion mewn ysgol gynradd sy'n cyrraedd pump oed yn ystod y flwyddyn academaidd. Mae CS Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp blwyddyn o ddisgyblion sy'n cyrraedd chwech oed yn ystod y flwyddyn academaidd, ac ati. Blwyddyn 13 yw'r grŵp o fyfyrwyr sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | CSD | CSB1 | CSB2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r pedwar cyfnod allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

## Rhestr termau – Cynradd

### Cwricwlwm Cenedlaethol

### Lefelau disgwyliedig y Cwricwlwm Cenedlaethol

- Erbyn diwedd cyfnod allweddol 1, yn saith oed, disgwylir i ddysgwyr gyrraedd lefel 2 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd lefel 3.
- Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddysgwyr gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd lefel 5.

### Y dangosydd pwnc craidd ym mhob cyfnod allweddol

Mae'r dangosydd pwnc craidd yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn Cymraeg neu Saesneg mamiaith, mathemateg a gwyddoniaeth, sef pynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol. Rhaid i ddysgwyr gyrraedd y lefel ddisgwyliedig o leiaf mewn Cymraeg neu Saesneg mamiaith ynghyd â mathemateg a gwyddoniaeth er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

### Setiau Data Craidd Cymru Gyfan

Gall ysgolion ac awdurdodau lleol gyfeirio at berfformiad o gymharu â'u teulu o ysgolion. Crëwyd y teuluoedd hyn o ysgolion i alluogi ysgolion gymharu'u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru. Mae teuluoedd yn cynnwys ysgolion â chyfrannau tebyg o ddisgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, disgyblion sy'n byw yn 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru, disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad, a disgyblion sy'n llai na chymwys o ran dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.